



# Amheuaeth o risg – senarios diogelu / amddiffyn ar gyfer Gweithgaredd 2

1. Mae merch 16 oed yn dweud wrthyfch fod ei brawd yn mynd i'w lladd am ei fod wedi'i gweld yn cusanu bachgen yn y stryd. Mae'n ofidus iawn.
  - A allai hyn arwain at sefyllfa ddifrifol, ystyriwch 'droseddau er anrhydedd' fel y'u gelwir.
  - Gall hefyd fod yn arwydd o fwlio neu hyd yn oed gam-drin rhywiol yn y teulu.
  - Fodd bynnag, er mwyn osgoi gorymateb, rhaid gwybod mwy, ydy hyn wedi digwydd o'r blaen, unrhyw bryderon blaenorol.
2. Mae Meinir, 15 oed, wedi bod yn sgwrsio ar-lein ag Alex yn gyfrinachol. Ar y dechrau, roedd yn ymddangos yn hyfryd ac roedd yn ei chael hi'n hawdd siarad ag ef am lawer o faterion personol. Fodd bynnag, mae bellach yn anfon llawer o negeseuon awgrymog ac anweddus ati sydd wedi gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus.
  - Efallai y bydd dweud wrth rhywun yn ddigon, bydd yn dibynnu ar allu Meinir i ymateb yn ddiogel.
  - A ystyrir bod Meinir yn agored i niwed am resymau eraill heblaw am ei hoedran?
  - Beth yw oedran Alex?
  - A yw Meinir yn bwriadu cyfarfod ag ef?
3. Mae bachgen 12 oed rydych yn gweithio gydag ef fel gwirfoddolwr mewn clwb ieuenticid bob amser yn edrych fel pe bai wedi blino ac mae'n dweud bod yn rhaid iddo helpu allan gryn dipyn gartref oherwydd iechyd gwael ei rieni. Mae ganddo frodyr a chwirydd iau, gan gynnwys chwaer ag anawsterau dysgu. Mae'n dweud ei fod yn gorfod gofalu amdani'n aml yn ogystal â choginio swper i'r teulu.
  - Efallai fod angen cymorth arno am ei fod yn ofalwr ifanc ac yn blentyn mewn angen.
  - Efallai na fydd am roi'r gorau i helpu allan gartref ac mae ei safbwyntiau a'i agweddau yn bwysig er mwyn gweld beth yw'r materion diogelu posibl.
4. Rydych yn cyfweld â bachgen 16 oed. Rydych yn sylwi bod ganddo lun o'i gariad 13 oed ar ei ffôn heb unrhyw ddrillad arni. Mae'n dweud mai ychydig o hwyl ydyw ac nad oes gwahaniaeth ganddi.
  - Y materion sy'n codi yma yw bod y bachgen yn 16 oed a bod ei 'gariad' yn rhy ifanc i gydsynio i weithredoedd rhywiol.
  - Gallai camau diogelu gynnwys y ddau ohonynt a'u hangen am fwy o hunan-barch yn ogystal â pha mor agored ydynt i achosion o gamfanteisio a sut i'w hamddiffyn yn y dyfodol.
5. Wrth gwrs, mae Alex a minnau yn brysur iawn ar hyn o bryd. Rydym braidd byth yn gweld ein gilydd. Rwy'n lansio'r cynnyrch newydd a dwi byth gartref cyn naw, ac yna rwyf wedi blino'n lân. Mae'n dal i fyw yn Llundain dair noson yr wythnos ac mae fel arfer gartref hyd yn oed yn hwyrach na mi pan fydd yma. Yna, gyda'i golff ef a'm hyfforddwr personol i, mae'n rhaid i ni edrych ar ein dyddiaduron gyda'n gilydd cyn y gallwn ddweud helo. Diolch byth am Maria i ofalu am yr efeilliaid. Mae'n werth y byd a dydyn ni ddim yn clywed siw na miw oddi wrthyn nhw o un diwrnod i'r llall. Mae'n cymryd yr holl boen allan o gael plant!
  - Dewisiadau ffordd o fyw, cefndiroedd proffesiynol yn cuddio datgysylltiad emosiynol.
  - Materion yn ymwneud â datblygiad y plant a'u buddiannau.

6. Rydych yn gwirfoddoli mewn hostel. Mae mam ifanc sengl yn ymweld â'i chariad yn rheolaidd, sy'n ddigartref yn yr hostel, gan ddod â'i baban 10 mis oed gyda hi. Bydd y fam yn aml yn mynd i mewn i'r dref gyda'i chariad, gan adael y baban yng ngofal gwahanol breswylwyr.

- Dewisiadau'n cael eu gwneud ar ran plentyn ifanc iawn, dealltwriaeth o anghenion y plentyn.
  - Ymlyniad i'r plentyn.
  - Ffactorau o ran pa mor agored ydyw i niwed.
- 

7. Mae merch 14 oed yn cydsynio i gael rhyw gyda'i chariad 16 oed.

- Ni all fod yn gydsyniol am ei bod o dan 16 oed, materion diogelu.
  - Y gwahaniaethau sydd rhyngddynt o ran eu haeddfedrwydd.
- 

8. Mae Pavinda, 11 oed, yn dweud wrthyh fod ei thad wedi bod yn gweiddi cryn dipyn ac wedi brifo ei mam. Nid yw'n credu y bydd yn gallu dod i'r clwb mwych.

- Trais domestig.
  - Cam-drin emosynol.
  - Arwydd o rywbeth mwy difrifol?
  - Neu broblem ddiweddar a gaiff ei datrys?
- 

9. Mae un o'r bechgyn iau yn eich lleoliad bob amser yn defnyddio "Facebook" a gemau ar-lein, ac nid yw byth heb ei iPhone. Am ryw awr yr wythnos diwethaf, roedd wedi cynhyrfu'n lân; roedd yn crïo ac yn crynu am ei fod wedi cynhyrfu gymaint.

- Dibyniaeth.
  - Ynysu cymdeithasol.
  - Materion rhianta.
- 

10. Mae Morgan a Lila yn rhieni ifanc iawn i Sky, pedair oed. Mae Lila yn dweud wrthyh eu bod yn gadael i Sky wylïo'r holl ffilmiau sydd ganddynt am eu bod am iddi dyfu i fyny'n "gwybod pethau".

- Dewisiadau ffordd o fyw.
  - Hawliau dynol.
  - Cam-drin emosynol.
- 

11. Mae eich cydweithiwr yn dweud wrthyh am y penwythnos gwych mae wedi'i gael. Mae'n dweud eu bod wedi cael llond tŷ o ffrindiau draw am swper a diodydd, gan gynnwys yr holl blant rhwng chwech a 14 oed. Gwnaeth pawb fwynhau eu hunain ond roeddent yn feddw iawn ac roedd ambell un yn rhy sâl i fynd adref.

- Dewisiadau ffordd o fyw, hawliau dynol.
  - Delwedd nad yw yfed 'dosbarth canol' yn niweidiol.
  - Canolbwyntio ar y peryglon a'r canlyniadau i'r plant.
  - Plant o oedrannau gwahanol, ffactorau gwahanol.
  - Darpariaeth i'r plant yn ystod y cyfnod hwn.
- 

12. Mae Jade a Russ yn byw mewn fan wedi'i throsi gyda babi Jade (18 mis oed). Maent yn smygu cannabis yn aml.

- Dewisiadau ffordd o fyw vs cyffur anghyfreithlon.
  - Diogelu'r baban rhag yr effeithiau a chymryd y cyffur yn ddamweiniol.
  - Faint maent yn ei smygu a'u gallu i ofalu am y plentyn ar y pryd.
  - Darpariaeth i'r baban.
-



13. Mae mam sydd wedi cael ysgariad yn gwneud esgusodion er mwyn atal ei chyn-wr rhag gweld ei blant ar ei ben ei hun.

- Ddim yn ystyried anghenion / dymuniadau'r plant.
  - Efallai fod ganddi resymau cudd dros wneud hyn a allai gyfiawnhau ei dewis.
- 

14. Bachgen 10 oed yn gadael ei hun i mewn i'r tŷ ar ôl ysgol ac yn gwneud byrbryd iddo ef a'i frawd iau nes i Mam gyrraedd adref o'r gwaith.

- Diogelu neu blant mewn angen.
  - Am faint y mae'r plant ar eu pen eu hunain?
  - Cymorth arall ar gael.
  - Diffyg canllawiau cyfreithiol.
- 

15. Merch 13 oed sy'n sâl ac yn rhannu'r gwely â'i mam / ei thad?

- Am ba hyd?
  - Pwy sydd eisiau hyn, anghenion pwy sy'n cael eu diwallu?
  - Gwahaniaethau teuluol / diwylliannol o ran beth yw oedran priodol.
  - Byddai rhannu gwelyau ac ystafelloedd yn gyffredin mewn sefyllfaoedd teuluol gorlawn.
  - Ble mae partner yr oedolyn?
  - A yw'n teimlo'n wahanol os mai mam neu dad sydd yn y gwely?
- 

16. Mae Meg wedi cael ei gweld yn rhoi cwtsh i Dave, unigolyn y mae'n ei gynorthwyo mewn cartref gofal, ar eu pen eu hunain. Gwelwyd bod Dave yn crïo.

- Gweithiwr proffesiynol ag ymlyniad yn dangos cefnogaeth ac yn ymddwyn yn briodol neu'n croesi ffiniau proffesiynol?
  - A yw hyn wedi digwydd o'r blaen gyda'r defnyddiwr gwasanaethau hwn neu ddefnyddwyr gwasanaethau eraill?
  - Am ba hyd y maent wedi adnabod ei gilydd?
  - Unrhyw gydberthynas arbennig, e.e. gweithiwr allweddol.
  - Beth sydd wedi'i nodi yn y cynllun gofal i ddangos dewisiadau unigol?
  - A yw'r person dan sylw yn wirfoddolwr / aelod o staff amhrofiadol?
- 

17. Mae John yn mynd i ganolfan ddydd ac mae'n ymddwyn mewn ffordd ymosodol, uchel ei gloch tuag at unigolion eraill. Mae newydd wthio a bwrw Rhodri.

- Angen cymryd hyn o ddifrif.
  - Ai digwyddiad untro yw hwn neu a yw'n digwydd yn aml i Rhodri yn unig neu bobl eraill?
  - Sut mae Rhodri'n teimlo am y peth a beth y mae am ei wneud?
  - Mae angen cymorth ar y ddau ac efallai y bydd angen diogelu er mwyn atal rhagor o niwed.
- 

18. Mae staff gofal yng nghartref grŵp Alison yn cynilo rhywfaint o'i harian bob wythnos ar gyfer "pethau sydd eu hangen arni ond na wnaiff eu prynu ei hun".

- A oes gan Alison y galluedd i wneud ei phenderfyniadau ei hun?
  - A oes cynllun gofal ar gael i gefnogi hyn?
  - Beth yw barn Alison ar hyn?
  - Beth sydd wedi cael ei wneud i geisio helpu Alison i ddeall pa bethau sydd eu hangen arni?
-

19. Mae meddyginiaeth Andrew yn cael ei malu mewn jam neu ni wnaiff ei chymryd.

- A oes gan Andrew alluedd?
  - A yw'n ymwybodol o hyn?
  - A yw'r nyrs / meddyg wedi cadarnhau bod hyn yn briodol i'r feddyginiaeth hon?
  - Pa ffyrdd eraill o gymryd y feddyginiaeth y rhoddwyd cynnig arnynt?
- 

20. Mae gan Delyth anabledau dysgu ac weithiau mae'n bwrw ei phen ar y gadair a'r bwrdd. Os bydd yn gwneud hyn ac na ellir torri ar ei thraws bydd ei gofalwr weithiau'n dal ei phen yn llonydd ac yn dal ei breichiau i lawr.

- A oes gan Delyth alluedd, a yw hi'n cytuno y gall hyn ddigwydd?
  - Beth mae'r cynllun gofal yn ei ddweud am amddiffyn Delyth pan fydd hyn yn digwydd?
  - Pa ddulliau eraill y rhoddwyd cynnig arnynt?
  - Am ba hyd y mae hyn wedi bod yn digwydd?
  - A yw staff wedi cael hyfforddiant priodol?
  - A yw'r teulu, yr eiriolwr a'r gweithiwr cymdeithasol yn gwybod bod hyn yn digwydd?
- 

21. Mae gan Alan awtistiaeth ac oherwydd hyn bydd weithiau'n colli ei dymer ac yn dechrau ymladd gyda phobl. Os yw hyn yn digwydd mae ei ofalwyr yn ei dynnu i ffwrdd ac yn ei ddal nes iddo dawelu.

- A oes gan Alan alluogrwydd?
  - A yw'n cytuno y gall hyn ddigwydd?
  - Beth mae'r cynllun gofal yn ei ddweud am amddiffyn Alan pan fo hyn yn digwydd?
  - Pa ddulliau eraill y rhoddwyd cynnig arnynt?
  - Am ba hyd y mae hyn wedi bod yn digwydd?
  - A yw staff wedi cael hyfforddiant priodol?
  - A yw'r teulu, yr eiriolwr a'r gweithiwr cymdeithasol yn gwybod bod hyn yn digwydd?
- 

22. Mae gweithiwr cymorth (neu gyfeillachwr) yn mynd â Mike i siopa yn Tesco. Gan nad oes gan Mike gerdyn 'pwyntiau', mae'n defnyddio ei un ei hun.

- A yw Mike yn gwybod neu'n cytuno?
  - Beth mae'r gweithiwr cymorth wedi'i ddweud?
  - Pam nad yw Mike wedi cael cerdyn?
  - Caiff pwyntiau eu hystyried yn enillion ariannol felly, mewn nifer o broffesiynau, byddai hyn yn cael ei ystyried yn achos o dorri'r Côt Ymarfer.
- 

23. Mae Terry yn golchi ac yn rhoi gofal personol iawn i'w ferch 20 oed a gafodd ei pharlusu mewn damwain car.

- A oes gan y ferch hon alluedd, a yw'n cytuno y gall hyn ddigwydd?
  - Beth sydd wedi'i nodi yn y cynllun gofal, os oes un?
  - Pa bethau eraill y rhoddwyd cynnig arnynt?
  - Am ba hyd y mae hyn wedi bod yn digwydd?
  - A yw Terry wedi cael hyfforddiant priodol fel nad yw'n anafu ei hun na'i ferch?
  - A yw gweddill y teulu, yr eiriolwr a'r gweithiwr cymdeithasol yn gwybod bod hyn yn digwydd?
- 

24. Mae Rhiannon yn 20 oed; mae wedi bod yn yr ysbyty gydag iselder a phroblemau camddefnyddio sylweddau ac mae bellach yn byw mewn hostel â chymorth. Ymddengys fod ganddi lawer o gariadon sy'n mynd a dod drwy'r amser.

- Dewisiadau ffordd o fyw neu'n agored i achosion o gamfanteisio.
  - Gall gydsynio ond efallai y bydd angen help arni i newid.
-



25. Mae'r unigolion mewn cartref preswyl yn colli eu 'breintiau' smygu oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Defnydd amhriodol o gosbau ac yn debyg i 'pin down' – gall y ffyrdd hyn o weithio ddod yn rheolaethol a gall diwylliant o gam-drin ddatblygu.
  - Yn torri hawliau dynol.
  - Mae smygu yn ddewis, nid yn 'frait'.
- 
26. Mae Katy yn byw gartref gyda'i rhieni. Mae ganddi anabledau dysgu ac mae'n cael budd-daliadau. Mae rhieni Katy yn defnyddio'r arian hwn.
- At ba ddibenion y mae'r arian yn cael ei ddefnyddio?
  - A yw Katy yn gwybod a / neu'n cytuno, a oes gan Katy alluedd?
  - Beth yw oedran Katy?
  - Pwy arall sy'n gwybod neu'n gysylltiedig â hyn?
- 
27. Mae Gladys yn 78 oed. Mae'n byw ar ei phen ei hun ac mae ganddi ddementia cynnar. Er ei bod hi'n ei chael hi'n anodd mynegi ei hun, mae ei siop gornel leol yn rhoi pum potel o sieri iddi bob wythnos.
- Dewisiadau ffordd o fyw, mae Gladys yn dewis gwneud hyn.
  - Gall alcohol gael effaith wael ar y dementia a'i gwneud yn fwy agored i niwed.
  - A oes unrhyw un wedi siarad â hi neu'r siopwr?
  - Sut arall y gellid diwallu ei hanghenion cymdeithasol ac ati?
- 
28. Mae Ben yn 35 oed ac nid yw wedi ymdopi'n dda â cholli ei glyw yn dilyn damwain. Prin y gall gyfathrebu ac mae'n mynd i'r dafarn bob nos i gwrdd â 'ffrindiau'. Ben sy'n prynu'r diodydd bob amser ond mae'n dweud nad oes gwahaniaeth ganddo.
- Ben sy'n dewis gwneud hyn ond efallai fod angen cymorth arno oherwydd efallai bod y lleill yn camfanteisio arno.
  - Gall hyn waethygu i fod yn gam-drin mwy difrifol.
- 
29. Mae gan gartref gofal bolisi o gloi ei ddrysau bob amser. Y rheswm mae'n ei roi yw bod sawl preswlydd yn 'agored i niwed' ac ni ellir gadael iddynt ymweld â'r dref leol ar eu pen eu hunain.
- Mae hyn yn torri'r hawl i ryddid a bywyd preifat.
  - Yr unig ffordd gyfreithlon o wneud hyn yw drwy awdurdodiad diffyg rhyddid neu ddefnyddio'r pwerau a geir o dan **Ddeddf Iechyd Meddwl 1983**.
- 
30. Cafodd menyw hŷn a oedd yn byw mewn cartref gofal preswyl ei derbyn i'r ysbyty ar ôl iddi gwmpo. Tra roedd yn yr ysbyty, penderfynodd yr awdurdod lleol bod angen gofal nyrsio llawn amser arni ac y dylid felly ei symud i gartref nyrsio yn hytrach na'i dychwelyd i'r cartref gofal preswyl. Nid oes neb yn ymgynghori â hi.
- Mae hyn yn torri ei hawl i barch tuag at ei bywyd preifat, ei chartref ac, yn ôl pob tebyg, ei bywyd teuluol. Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr hawliau hyn.
- 
31. Mae Ellis, 79 oed, yn byw gyda'i ferch a'i fab-yng-nghyfraith; mae'n drysu'n aml ac mae'n mynd yn eiddil. Roedd yn arfer gweithio fel garddwr ac mae'n dal i geisio mynd allan cymaint â phosibl. Fel arfer, nid yw'n gwybod ble y mae ac nid yw'n sylwi ar geir, grisau na pheryglon eraill. Mae ei deulu wedi dechrau ei gloi yn y tŷ gyda'r nos er mwyn ei gadw'n ddiogel.
- A yw'r teulu yn y tŷ gydag ef?
  - A yw'n arferol i gloi'r drws?
  - A ellid defnyddio technoleg i 'synhwyro' pryd y mae Ellis yn symud o gwmpas yn ystod y nos?
  - Cymorth arall i'r teulu.
-

32. Mae gan Sheila nam ar ei golwg ac mae'n byw mewn cartref preswyl; mae'n cael pyliau o weiddi sy'n gallu para oriau. Mae'r cartref wedi gofyn am bresgripsiwn o gyffuriau tawelu er mwyn ei hatal rhag gweiddi.

- Mae presgripsiynau amhriodol i ddiwallu anghenion y staff neu'r teulu yn torri hawliau dynol.
  - Pa ddulliau eraill y rhoddwyd cynnig arnynt?
  - Pam bod Sheila yn gweiddi?
  - Pwy yw ei heiriolwr?
  - A yw mewn poen?
- 

33. Mae Jackie yn gofalu am ei mam yn y cartref maent yn ei rannu. Mae'n mynd â rhywfaint o bensiwn ei mam yn rheolaidd er mwyn talu costau gofalu amdani.

- Ar beth mae'n gwario'r arian?
  - A yw'r fam yn gwybod a / neu'n cytuno, a oes gan y fam alluedd?
  - Pwy arall sy'n gwybod neu sy'n gysylltiedig â hyn?
  - A oes gan Jackie bŵer atwrnai?
- 

34. Mae rasel Mr Hughes yn cael ei defnyddio i eillio Mr Lewis oherwydd ni ellir dod o hyd i rasel Mr Lewis ei hun.

- Mae hyn yn amhriodol ac yn dangos diffyg parch at urddas.
  - Materion o ran iechyd a diogelwch.
  - A yw Mr Lewis yn gwybod?
  - Gall fod yn arwydd o ddiwylliant anofalgar negyddol lle na chaiff unigolion eu gwerthfawrogi a lle na chaiff canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y person eu datblygu.
- 

35. Mae gofalwr gwrywaidd yn golchi ac yn gwisgo Betty ac yn mynd â hi i'r tŷ bach yn rheolaidd. Mae gan Betty ddementia datblygedig ac ni all ddweud y gwahaniaeth rhwng dynion a menywod mwyach.

- Mae'n debygol iawn bod hyn yn amhriodol.
  - Beth fyddai Betty wedi'i ddewis?
  - Beth yw'r norm diwylliannol o ran golchi?
  - A oes gan Betty eiriolwr a beth fyddai ei farn ef ar hyn?
  - Gall fod yn arwydd o ddiwylliant anofalgar negyddol lle na chaiff unigolion eu gwerthfawrogi a lle na chaiff canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y person eu datblygu.
- 

36. Mae Mrs Smith yn byw gartref. Ni all fynd allan oherwydd arthrits difrifol ac mae'n drysu weithiau. Mae ei chymydog yn siopa drosti bob wythnos ond nid yw byth yn gofyn beth y dylai ei brynu. Pan fydd yn glanhau i Mrs Smith, bydd yn taflu unrhyw beth sy'n creu annibendod er mwyn cadw pethau'n lân ac yn daclus.

- Gallai hyn droi'n gamdriniaeth ac nid yw'n dangos ystyriaeth o Mrs Smith fel unigolyn.
  - A yw'r cymydog wedi ei hadnabod ers amser hir?
  - A yw wedi cael unrhyw gyngor neu gymorth?
-



37. Mae Morfydd, 68 oed, yn cael cymorth gofal yn y cartref ar ôl cael ei rhyddhau o'r ysbyty. Bob tro rydych chi'n ymweld â hi, mae gŵr Morfydd yn eich dilyn o amgylch y tŷ. Mae'n amlwg nad yw am i chi a Morfydd gael eich gadael ar eich pen eich hunain.

- Beth yw agwedd Morfydd at hyn?
  - A yw'r ymddygiad hwn yn rheoli gormodol?
- 

38. Rydych chi'n gweithio gyda David sydd newydd briodi am yr eildro. Yn y gorffennol, mae wedi dweud wrthy ch ei fod ef a'i bartner newydd yn gweiddi ar ei gilydd pan fyddant yn anghytuno. Rydych chi wedi sylwi bod gan David grafiadau ar ei ddwylo a'i freichiau yn aml iawn ar fore Llun ac yr wythnos diwethaf roedd hi'n ymddangos fel petai ganddo gleisiau o amgylch ei lygaid.

- A yw David yn cymryd rhan mewn chwaraeon corfforol ar benwythnosau?
  - Allai'r marciau hyn fod wedi digwydd wrth i David gam-drin ei bartner yn gorfforol?
  - A yw partner David yn ei gam-drin ef?
-